Gwyddom fod gostyngiadau i gyllideb 2024-25 yn cael effaith sylweddol ar weithrediad y cyrff hyd braich hyn o ddydd i ddydd. Mae llawer yn gorfod ailystyried y gwasanaethau y gallant eu darparu, ac yn gorfod ystyried lleihau costau gweithredu drwy leihau lefelau staffio. Rydym yn cydnabod y byddai ailstrwythuro mor helaeth, a'r diswyddiadau staff a fyddai'n anochel yn dilyn, yn peri pryder mawr i bawb o dan sylw ac y byddai effaith y diswyddiadau hyn yn parhau i gael ei theimlo am beth amser. Rydym yn ymwybodol eich bod wedi ymrwmo i ailedrych ar lythyrau cylch gwaith y sefydliadau hyn yng ngoleuni'r gostyngiadau arfaethedig i'w cyllideb. Pe bai lefelau tebyg o ostyngiadau i'r gyllideb yn cael eu cyflwyno y flwyddyn nesaf rydym yn ofni y byddai'r cyrff hyn yn cael eu hansefydlogi eto. Byddai hon yn sefyllfa anghynladwy. Byddai ansicrwydd parhaus o'r fath a thoriadau o'r raddfa hon yn dinistrio ein sefydliadau cenedlaethol ac yn achosi niwed anadferadwy i'w gallu i weithredu'n iawn.



Fel yr amlinellwyd yn y llythyr a anfonwyd atom, byddem ni hefyd yn gofyn "beth fydd ar ôl o sefydliadau diwylliannol a chenedlaethol blaenllaw Cymru os gosodir y toriadau hyn?"

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb erbyn 4 Mawrth 2024..

Yn gywir,



Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

HK/MLW

8 Chwefror 2024

Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1SN

Annwyl Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol,

Rwyf yn ysgrifennu atoch ynglŷn â'r toriad posibl i'r gyllideb y mae'r sector cyhoeddi yn ei wynebu yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Er fy mod yn gwbl ymwybodol bod Cymru fel cenedl yn wynebu sefyllfa ariannol ddifrifol, a bron pob sefydliad yn y sector cyhoeddus â phenderfyniadau anodd iawn i'w gwneud, gan gynnwys y Cyngor Llyfrau, hoffwn egluro beth fydd y toriad arfaethedig o 10.5% yn eu golygu i ni a'n sector.

Mae'r sector cyhoeddi yn parhau i ddarparu gwerth eithriadol am arian fyddai prin yn ddigonol i wneud un cynhyrchiad ffilm neu deledu. Mae'r allbynnau ar ffurf llyfrau, e-lyfrau, llyfrau llafar, cylchgronau a gwefannau yn cynhyrchu cynnwys sydd â gwaddol hir ac yn un sydd o fudd i'r etholwyr ehangaf posibl. Y bobl uniongyrchol sy'n derbyn budd o'r grantiau cyhoeddi yw'r cyhoeddwy'r sy'n cyflogi staff, awduron a darlunwyr, dylunwyr a golygyddion llawrydd, cysodwyr ac argraffwyr, llyfrwerthwyr, ysgolion, llyfrgelloedd, ac wrth gwrs, y darllenwyr.

Er ein bod wedi goroesi degawd o gyllid sydd wedi aros yn ei unfan ac wedi parhau i gyfrannu'n sylweddol at yr economi sylfaenol ledled Cymru gyfan, bydd y toriad arfaethedig hwn o 10.5% yn y gyllideb yn cael effaith ddifrifol a bydd yn achosi difrod hir dymor a fyddai'n anodd iawn ei wrthdroi.

Byddem yn eich annog i ystyried faint o allbynnau a gweithgareddau fydd yn cael eu colli o ganlyniad i leihau'r grantiau cyhoeddi £249,763 o'i gymharu â'r costau ar gyfer un cynhyrchiad teledu neu ffilm. Rydym yn gwerthfawrogi bod Cymru Greadigol mewn sefyllfa amhleserus o orfod penderfynu sut y dylid gweithredu toriadau ac efallai mai trosglwyddo cyfran gyfartal o'r toriadau yw'r unig opsiwn. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn cymryd i ystyriaeth y cyfraniadau sylweddol a gwirioneddol a wnawn ni i bron pob un o'r Nodau Llesiant a'r blaenoriaethau traws-sector, heb sôn am yr effaith sylweddol a gawn ar dargedau'r iaith Gymraeg.

Mae ein cynnwys Cymraeg yn hanfodol bwysig i ddarparu deunydd cyfoes, deniadol mewn amrywiaeth o fformatau i gefnogi darllenwyr sydd â phob math o ddiddordebau a gallu.

O ystyried polisi Llywodraeth Cymru i gyrraedd un miliwn o siaradwyr Cymraeg, mae'n ymddangos yn wrthreddfol i dorri'r union gynnwys y mae darllenwyr a dysgwyr yn dibynnu arno i ddysgu, ymarfer a mwynhau'r iaith. Er bod y sector llyfrau'n wynebu toriad, rwy'n deall y bydd sefydliadau eraill sy'n gweithio'n uniongyrchol ym maes y Gymraeg fel yr Urdd, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Mentrau Iaith yn cadw cyllideb arfaethedig gan aros yn ei hunfan. Y cyfanswm y disgwylir i ni ei arbed o gyllideb y Grant Cyhoeddi Cymraeg yw £177,049. Gall rhai o'r ceisiadau grant unigol rydym yn eu prosesu fod mor fach â £250 sy'n dangos pa mor ddifrifol yw colli swm o'r fath.

Mae ein Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi Cymraeg wedi trafod sut i weithredu toriadau ac yn gytûn nad yw dull 'sleisio salami' – gyda phob adran yn destun toriad cyfartal – yn ymarferol. O ganlyniad, cytunwyd cyn belled ag y bo modd, y dylid diogelu gwaith craidd y rhaglenni cyhoeddi, a swyddi. Mae hyn yn golygu y bydd grantiau llyfrau unigol ar gyfer oedolion a phlant, masnachfaint y gwasanaeth newyddion digidol, comisiynau awdur a'r cylchgronau i gyd yn cael eu heffeithio. Bydd y cyllidebau ar gyfer marchnata llyfrau, hyfforddiant, cefnogaeth i waith estyn allan y cyhoeddwyr Cymraeg CWLWM, taliadau anogaeth i'r llyfrwerthwyr ac ymchwil cysylltiedig â darllenwyr, i gyd yn dod i ben. Yr hyn sy'n fwyaf pryderus yw y bydd yr effaith yn llawer gwaeth ar y grantiau cyhoeddi ac, yn y pen draw, ar faint o lyfrau a gyhoeddir. Mae hyn yn ofid arbennig o ystyried bod nifer y teitlau a gefnogir eisoes wedi lleihau oherwydd cynnydd o 25% mewn costau cynhyrchu.

Mae'n destun pryder mawr i ni y bydd yn rhaid i'r gyllideb ar gyfer cyhoeddiadau Saesneg, sydd eisoes yn eithriadol o fach ac o dan straen mawr, golli £72,714; eto, swm bach iawn yn y rhan fwyaf o gyd-destunau ond yn ddinistriol yn ein un ni gan fod rhai o'r grantiau a weinyddir gennym yma am lai na £200. Mae'r cyfyng-gyngor gwirioneddol a achosir yn wyneb y diffyg dealltwriaeth o hanes, gwleidyddiaeth a diwylliant Cymru wedi ei ddogfennu'n dda, ac o gofio bod y mwyafrif o ddysgwyr a darllenwyr yng Nghymru yn cael eu gwybodaeth o gynnwys Saesneg, mae'n drychinebus gweithredu gostyngiad pellach.

Ni allwn ac ni ddylem orfod dibynnu ar gyhoeddwyr rhyngwladol yn Llundain sydd heb fawr o ddiddordeb na gwybodaeth o'n gwlad i fod yn ffynhonnell wrth gefn i'n cynnwys Saesneg, a hynny dim ond oherwydd hwyluster, neu gan mai nhw sydd, fel mae'n digwydd, â'r diwydiant cyhoeddi mwyaf yn y byd.

Nid ydym yn sicr a fydd modd gwarchod y gyllideb a glustnodwyd ar gyfer creu cylchgrawn Saesneg newydd, gyda model cynaliadwy, yn dilyn canlyniad y tendr masnachfaint diweddar a'r pwysau difrifol sydd ar y gyllideb honno. Wrth wynebu allbwn aruthrol o fawr yn Saesneg o Loegr (tua 300,000 o lyfrau'r flwyddyn), ni all Cymru fforddio cynhyrchu llai o gynnwys sy'n cyflwyno ac yn trafod ei phryderon penodol yn ddilys. Mae perygl gwirioneddol y bydd cynnig llai o arlwy ar gyfer darllenwyr yn eu hanfon ymhellach i ffwrdd oddi wrth gynnwys a wnaed yng Nghymru i Gymru.

Mae'r Grant Cynulleidfaedd Newydd wedi bod yn gyfle i arloesi go iawn ac i gael gwell cynrychiolaeth ac mae sawl cynllun newydd mewn perygl o roi'r gorau i fodoli. Gyda phwyslais Llywodraeth Cymru ar weithio tuag at weithredu'r Cynllun Gweithredu

Cydraddoldeb Hiliol ymhellach, byddai'n dorcalonnus pe bai rhywfaint o'r cynnydd gwirioneddol yr ydym wedi'i gyflawni yn cael ei atal neu ei ohirio'n ddifrifol.

Ysbrydolodd y rhaglen #CaruDarlleYsgolion ddarllenwyr ifanc, gan ddarparu'r llyfrau cyntaf erioed iddynt fod yn berchen arnynt mewn rhai achosion, a helpu ysgolion i gefnogi gweithgareddau darllen er pleser. Gyda phwyslais ein cwricwlwm ar addysgu drwy lenyddiaeth, byddai cefnogi llai o lyfrau Cymraeg neu Saesneg sy'n portreadu hanes, diwylliant a chymdeithas Cymru yn ddilys, yn wrthgynhyrchiol. Mae canlyniadau PISA yn dystiolaeth bendant bod angen i ni wneud mwy i ymgysylltu ein pobl ifanc ag amrywiaeth o wahanol gynnwys, ond yr ehangder hwnnw o ddewis a fydd mewn perygl.

Mae manteision darllen ar gyfer iechyd meddwl a llesiant wedi cael eu cofnodi'n eang, byth yn fwy felly nag yn ystod sawl cyfnod clo a phandemig Covid-19. Mae'r rhaglen Darllen yn Well wedi ei hadeiladu ar y dystiolaeth honno bod bibliotherapi yn ymyrraeth iechyd meddwl cynnar effeithiol. Drwy sicrhau bod teitlau o'r fath ar gael am y tro cyntaf yn y Gymraeg rydym yn cefnogi presgripsiynu cymdeithasol ac iechyd cymunedol, a thrwy hynny'n darparu ffynhonnell hanfodol o gymorth iechyd meddwl a llesiant i bobl gael mynediad atynt ac ymgysylltu â nhw drwy gyfrwng y Gymraeg.

Trwy ei weithgareddau dosbarthu, mae'r Cyngor Llyfrau yn cynhyrchu tua £3 miliwn mewn refeniw sy'n cefnogi 16 swydd a gan ei fod yn gweithredu ar sail nid-er-elw mae'n darparu cymorthdaliadau ychwanegol i gyhoeddwyr a llyfrwerthwyr; rydym yn gwasanaethu cannoedd o lyfrwerthwyr ac yn dosbarthu i dros 40 o wahanol wledydd. Er mwyn rhoi ein gwaith mewn cyd-destun, amcangyfrifir bod gwerth y farchnad lyfrau yng Nghymru oddeutu £70 miliwn sy'n amlygu'r pwysau y mae'r llyfrwerthwyr annibynnol bach, cyhoeddwyr a'n Canolfan Ddosbarthu yn ei wynebu a pha mor gytbwys yw ein ecosystem llyfrau.

Cymru sydd eisoes â'r gwariant lleiaf ar y celfyddydau a diwylliant o'i gymharu â gwledydd Ewropeaidd eraill o faint tebyg. Mae pob gwlad yn cydnabod y pŵer o adrodd eu straeon eu hunain, yn eu hieithoedd eu hunain, a gobeithio eich bod yn cytuno â mi fod angen mwy o gynnwys yn hytrach na llai arnom sy'n ennyn diddordeb ein dinasyddion mewn ffordd ystyrlon.




Rwyf wedi amlinellu sut mae ein gwaith yn croesi ar draws gwahanol gyfrifoldebau adrannau'r Llywodraeth a sut mae ein seilwaith yn cefnogi gweithredu polisiâu allweddol Llywodraeth Cymru; hefyd beth fydd effaith y toriad arfaethedig o 10.5% yng nghyd-destun cymharol maint ein cyllid grant, yn enwedig o ran y Grantiau Cyhoeddi. Rwyf yn eich annog, felly, i gefnogi gostyngiad i'r toriadau arfaethedig gan y bydd hyn yn help i'r sector a ninnau i barhau i ddarparu gwasanaethau gwerthfawr i'n cenedl.

Gyda diolch diffuant am roi eich ystyriaeth i'r mater,

Yn gywir,



HELGARD KRAUSE
Prif Weithredwr



Annwyl Weinidog,

Ysgrifennwn atoch mewn braw fod toriad arfaethedig o 10.5% yn wynebu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Mae hyn yn dod ar ôl degawd ble blu toriad o 37% yn nhermau real.

Mae'r toriad yma yn fygythiad dybryd i gyhoeddi yng Nghymru. Eisoës mae'r pwysau ar weisg yn anghynialadwy gyda staff yn llosgi allan dan y pwysau gwaith gyda chyn lleied o gyllid a staff.

Erfyniwn arnoch i leoli'r sector gyhoeddi Cymraeg dan yr un amddiffyniad a mudiadau Cymraeg eraill fel yr Urdd, Canolfannau Cymraeg i Oedolion a'r Mentrau Iaith. Mae'r deunydd a gynhyrchwyd gan y gweisg yn hanfodol er mwyn gwaith pob un o'r rhain, gyda llenyddiaeth yn rhan annatod o holl weithgarwch diwylliannol Cymru.

Ni ellid cynnal gwyliau cerdd dant na pharti adrodd heb farddoniaeth, ni all dysgu'r Gymraeg heb nofelau, ni ellid cynnal sgysiau deallus am wleidyddiaeth, hanes a chymdeithas Cymru heb lyfrau. Mae bygythiad i'r diwydiant cyhoeddi yn fygythiad i hyn oll.

Yng nghyd-destun deddfwriaeth Cymru mae toriad o'r fath yn mynd yn groes i amcan y Miliwn o siaradwyr, yn ogystal â deddf cenedlaethau'r dyfodol. Mae llyfrau yn rhan annatod o'n tirwedd ddiwylliannol, sgil effaith toriad o'r fath yn yr hir dymor yw tirwedd lwm, gan lesteirio potensial creadigol, gwleidyddol, diwylliannol a chymdeithasol Cymru.

Galwn arnoch chi i ail ystyried y toriadau hyn. Mae diwydiant cyhoeddi Cymru mewn sefyllfa fregus ar ôl blynyddoedd o gwtogi mewn termau real. Gan y wladwriaeth ddyletswydd amddiffyn diwydiant sy'n addysgu ac yn peri'r fath les cymdeithasol drwy gynhyrchu llyfrau o safon. Ni ellid disgwyl i'r farchnad rydd gefnogi llyfrau mewn iaith leiafrifol.

Gyda diolch

Cwlm Cyhoeddwyr Cymru ar ran Cyhoeddwyr Llyfrau a Deunyddiau Darllen Cymraeg



Ein cyf/Our ref DB-PO-0041-24

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

8 Chwefror 2024

Annwyl Delyth,

Rwy'n ysgrifennu atoch ynglŷn â'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i Undeb Rygbi Cymru (URC) yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o wybod bod gan y pwyllgor ddiddordeb yn y materion hynny, a'i fod wedi bod wrthi'n eu hystyried.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r cymorth ariannol a ganlyn i URC:

Mis Ionawr 2021 – Cytunodd Gweinidogion Cymru ar becyn o gymorth ariannol ar gyfer chwaraeon a oedd wedi dioddef a cholli incwm o ganlyniad i'r cyfyngiadau Covid-19, lle'r oedd gofyn i gemau gael eu chwarae y tu ôl i ddrysau caeedig yn 2020-21. Cafodd URC a'r pedwar rhanbarth grant o £13.5 miliwn nad oedd yn ad-daladwy ar ôl iddynt golli incwm oddi wrth wylwyr gemau rhyngwladol a gemau Pro-14. Cafodd URC a phob un o'r rhanbarthau rygbi proffesiynol gyfran gyfartal o £2.7 miliwn o'r grant hwnnw.

Mis Ionawr 2022 – Cytunodd Gweinidogion Cymru ar becyn arall o gyllid grant gwerth £3 miliwn, nad oedd yn ad-daladwy, ar gyfer chwaraeon yr effeithiwyd arnynt gan y cyfyngiadau Covid-19 a oedd yn gwahardd gwylwyr rhag mynd i ddigwyddiadau chwaraeon rhwng 26 Rhagfyr 2021 a 21 Ionawr 2022. Cafodd URC gyfran o £475,373 o'r cyllid hwnnw, ac fe'i dosbarthwyd i glybiau rygbi proffesiynol a lled-broffesiynol, oherwydd bod gofyn iddynt chwarae gemau y tu ôl i ddrysau caeedig yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mis Mawrth 2022 – Ar ôl i URC wneud cais i'r perwyl hwnnw, cymerodd Llywodraeth Cymru gam digynsail, ond angenrheidiol, gan gytuno i roi benthyciad o £18 miliwn i URC er mwyn iddo fedru ailgyllido'r benthyciad tair blynedd yr oedd ganddo eisoes o dan Gynllun Llywodraeth y DU i roi Benthyciadau Tarfu ar Fusnesau Mawr yn sgil y Coronafeirws (CLBILS). Bryd hynny, nid oedd URC yn gallu bodloni telerau'r benthyciad CLBILS. Fe'i gwnaed yn glir wrth Weinidogion Cymru y byddai'r sefydliad – a'r pedwar rhanbarth – yn wynebu risgiau ariannol a fyddai'n bygwth eu bodoloeth pe na baent yn cael cymorth brys ar ffurf benthyciad wedi'i ailgyllido.

Cafodd benthyciad Llywodraeth Cymru ei roi'n uniongyrchol i URC ar sail amodau y cytunwyd arnynt, a oedd yn adlewyrchu telerau'r CLBILS, ond a oedd yn estyn yn cyfnod

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ad-dalu'n sylweddol i 18 mlynedd. Roedd y cytundeb hwnnw'n cynnig amserlen ad-dalu fwy fforddiadwy i URC ac yn rhoi'r hyblygrwydd ar yr un pryd i'r sefydliad ei adfer ei hun.

Cafodd telerau cyffredinol yr amodau sy'n gysylltiedig â'r benthyciad eu datblygu drwy drafod â Banc Datblygu Cymru, ac mae'r telerau hynny'n ystyried lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r benthyciad a'r angen i reoli cymhorthdal.

Mis Mehefin 2023 – Cysylltodd URC â Lywodraeth Cymru i ailnegodi'r benthyciad ar ôl i'w gynllun busnes gael ei newid yn sylfaenol. Arweiniodd hynny at newid rhai o'r telerau a'r amodau, gan gynnwys newid y dyddiad ad-dalu i gyd-fynd â'r dyddiad ailgyllido corfforaethol sydd gan URC gyda'i brif fenthyciwr. Cytunodd y ddau barti ar y newidiadau hynny er mwyn cynorthwyo URC yn ystod cyfnod hynod heriol i'r pedwar rhanbarth ac er mwyn helpu'r gêm broffesiynol i fod yn gynaliadwy yn yr hirdymor.

Nid benthyciad Covid, ond yn hytrach, fenthyciad masnachol, yw benthyciad Llywodraeth Cymru i URC. Ni chreodd Llywodraeth Cymru gynllun benthyciadau Covid ar gyfer sefydliadau chwaraeon yn ystod y pandemig ond fe wnaeth Gweinidogion Cymru ddarparu cynllun grant nad oedd yn ad-daladwy – cafodd rygbi fwy na £14 miliwn mewn grantiau o dan y cynllun hwnnw. Cafodd pob un o bedwar rhanbarth rygbi proffesiynol Cymru gyfanswm o ryw £7 i £8 miliwn drwy gyfuniad o grantiau a benthyciadau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rhoddodd Llywodraeth y DU (drwy DCMS – yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon) fenthyciadau i sefydliadau rygbi ar y lefel gyfatebol yn Lloegr drwy ei Phecyn Cymorth y Gaeaf ar gyfer chwaraeon.

Mae'r cymorth sylweddol hwn – gan gynnwys camau digynsail i estyn cyfnod ad-dalu'r benthyciad – yn arwydd o'n cefnogaeth i URC ac i rygbi yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi pa mor bwysig yw rygbi i ddiwylliant a chwaraeon yng Nghymru. Byddwn yn parhau i drafod ag URC er mwyn sicrhau bod gan y gêm ddyfodol cadarnhaol a chynaliadwy ar bob lefel.

Mae cyllideb Cymru yn wynebu'r setliad anoddaf a llymaf y mae wedi'i gael oddi wrth lywodraeth y DU ers dechrau datganoli. Mae'n cyllideb yn werth £1.3 biliwn yn llai nag ar ddechrau cyfnod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Mae hynny wedi rhoi pwysau aruthrol ar draws holl feysydd y Llywodraeth, ac yn golygu bod llai o gyfle o lawer i gyllidebau datganoledig ddarparu'r cymorth ychwanegol y mae ei angen ar lawer o fusnesau. Mae'r camau a gymerwyd gennym i gefnogi rygbi proffesiynol wedi mynd ymhellach na'r camau sydd wedi bod ar gael i rygbi yn Lloegr, ond mae maint y straen ariannol sy'n wynebu cyllideb Cymru ar hyn o bryd yn cyfyngu ar yr opsiynau sydd ar gael i Weinidogion Cymru fedru ymyrryd.

Yn gywir,



Dawn Bowden AS/MS

Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

09 Chwefror 2024

Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol

Annwyl Mark,

Yn ein cyfarfod ar 24 Ionawr 2024, buom yn ystyried y cyntaf o'n hadroddiadau monitro chwarterol ar Gysylltiadau Rhyngwladol, ac yn trafod cynlluniau Llywodraeth y DU i gadarnhau Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol.

I'n helpu i ystyried y mater hwn ymhellach, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael y wybodaeth a ganlyn:

1. Barn Llywodraeth Cymru ynghylch:
 - a) Y DU yn cadarnhau'r Confensiwn;
 - b) gwerth a manteision aelodaeth y DU i Gymru; a
 - c) threftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yr hoffai ei gweld yn cael ei chynnwys ar y rhestr, a pham.
2. Pa gynlluniau sydd ar waith i Lywodraeth Cymru goladu ei rhestr ei hun.
3. A yw Llywodraeth Cymru wedi awgrymu treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol i'w chynnwys, a'r rhesymeg dros ei chynnwys.

4. A yw Llywodraeth Cymru o blaid cynnwys yr enghreifftiau a restrir yn y datganiad i'r wasg gan Lywodraeth y DU, megis rasys ffordd Nos Galan, canu Plygain, y Fari Lwyd, Dydd Gŵyl Dewi, Sioe Frenhinol Cymru, Dydd Santes Dwynwen ac Eisteddfodau.
5. A ellid defnyddio rhestrau presennol, megis yr un a gynhelir gan Museums Galleries Scotland.
6. Sut mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU i baratoi ar gyfer cadarnhad a pha mor aml y maent yn cydweithio fel hyn.
7. Cyfraniad Llywodraeth Cymru hyd yma at rwymedigaethau rhyngwladol y DU yn y maes hwn, gan gynnwys cytundebau diwylliannol rhyngwladol fel y Confensiwn hwn.
8. Sut mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at ddylunio'r arolwg cyhoeddus sy'n rhan o ymgynghoriad Llywodraeth y DU.
9. A fydd angen adnoddau ychwanegol i goladu a chynnal rhestr Cymru, a beth yw'r adnoddau hyn.
10. Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau y caiff rhwymedigaethau'r Confensiwn eu monitro ac y cydymffurfir â hwy.
11. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod tarddiad treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yn unigryw i Gymru gan fod llawer o'n treftadaeth a'n traddodiadau diwylliannol yn rhannu gwreiddiau â phobloedd Celtaidd o bob rhan o Ewrop.

Yn olaf, ac yng nghyd-destun y drafodaeth hon, byddem yn ddiolchgar o ddeall beth yw barn Llywodraeth Cymru mewn perthynas â galwadau am ddynodi Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl gyhoeddus genedlaethol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 08 Mawrth 2024. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad er gwybodaeth.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Y Gwir Anrhydeddus Lucy Frazer CB AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y
Cyfryngau a Chwaraeon
Llywodraeth y DU

09 Chwefror 2024

Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol

Annwyl Lucy,

Yn ein cyfarfod ar 24 Ionawr 2024, bu'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol yn trafod cynlluniau Llywodraeth y DU i gadarnhau Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol.

I'n helpu i ystyried y mater hwn ymhellach, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael y wybodaeth a ganlyn:

1. Pa fanteision y gellir eu disgwyl o fod yn rhan o'r rhestr genedlaethol, megis mynediad at gyllid neu fentrau i gefnogi treftadaeth anniriaethol?
2. O ran y paneli cymeradwyo a fydd yn cael eu dyrannu i bob cenedl, sut y caiff y panel i Gymru ei sefydlu, a pha lywodraeth fydd yn gyfrifol amdano? Er enghraifft, ai Llywodraeth Cymru fydd yn pennu aelodaeth y panel yng Nghymru?
3. Sut y mae Llywodraeth y DU yn rhagweld 'rhestr gydnaws' yn gweithredu, a sut y bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i gynnal trefniadau'r Confensiwn?
4. Sut y bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'r llywodraethau datganoledig i sicrhau y caiff y rhestr ei chynnal?

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd er gwybodaeth.

Yn gywir,



Delyth Jewell

Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Richard Collier-Keywood
Cadeirydd
Abi Tierney
Prif Weithredwr
Nigel Walker
Cyfarwyddwr Gweithredol Rygbi
Undeb Rygbi Cymru

09 Chwefror 2024

Honiadau yn ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru - y wybodaeth ddiweddaraf am hynt adroddiad yr adolygiad annibynnol

Annwyl Richard, Abi, a Nigel,

Diolch i chi am ddod i sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor ar 24 Ionawr 2024, lle buoch chi'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am ymateb URC i ganfyddiadau'r adolygiad annibynnol diweddar i honiadau o agweddau rhywiaethol, casineb at fenywod, homoffobia a hiliaeth yn y sefydliad.

Gwnaeth yr adroddiad yn glir bod angen gwneud cryn dipyn o waith er mwyn ailadeiladu ymddiriedaeth yn URC, ac i fynd i'r afael â diffygion difrifol yn niwylliant, llywodraethiant ac arweinyddiaeth y sefydliad. Mae'r Pwyllgor yn croesawu hynt y gwaith hyd yma i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad. Rydym yn arbennig yn canmol penodi grŵp goruchwyllo allanol i sicrhau bod y cynnydd hwn yn parhau ar raddfa gyflym, yn ogystal â'ch addewid i gyhoeddi 'adroddiadau cynnydd' rheolaidd. Hyderwn y bydd y rhain yn rhoi sicrwydd o ymrwymiad yr uwch dîm arwain i sicrhau llwyddiant URC yn y dyfodol.

Nodwn o'ch 'adroddiad cynnydd' chwarterol cyntaf y disgwylir i nifer o gamau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad annibynnol fod ar waith erbyn 30 Mehefin 2024. Er mwyn i ni gael gwybod am hynt eich gwaith, hoffem gymryd tystiolaeth gennych eto yn gynnar yn nhymor yr hydref 2024, yn dilyn y garreg filltir honno.

Edrychwn ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf maes o law.



Yn gywir,

Delyth Jewell

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



From:

Sent: Tuesday, February 20, 2024 5:40 PM

To:

Subject: ITV Wales news item

Good evening

Bringing to your attention and sharing with you a written statement which has been given to ITV Wales in advance of a news item to be aired this evening, Tuesday 20 February, from 6pm.

Our CEO Abi Tierney has also given an interview to ITV Wales which expands on some of the sentiment found below.

We have been informed that the interview and associated news item will feature alongside a contribution from a former Group employee, who has asked to remain anonymous.

Specifically, this individual describes negative experiences whilst working for the Group in 2019 and 2021.

It should be noted that we have taken care to respect this individual's desire to remain anonymous in the words provided below, which should explain the lack of any direct reference to an incident or incidents.

Finally, we feel it is important to let you know that Abi has repeated calls today to WRU staff and anyone who has been affected by what is described or any other related incident to please get in touch with her directly, contact their line manager or use the anonymous hotline found via the SeeHearSpeakUp website or at 0800 056 2539, to seek support.

Comment:

'Firstly, it is vitally important for me, on behalf of everyone at the Welsh Rugby Union, to formally apologise directly to the individual involved. The behaviour described is totally unacceptable and was not ever, and will not ever, be tolerated.

'Our culture did not prevent such an incident from happening and, whilst we know our People team worked hard to offer support and care over an extended period of time, some of our HR policies for addressing such incidences were not right. We have said already that we regret the use of non-disclosure settlements or similar arrangements where employment ended.

'More widely, I would like to reiterate the full apology both myself and others have previously offered to anyone who has been affected by issues and challenges highlighted by our recent Independent Review.

'Although the person has wished to remain anonymous, from the description of the circumstances, it is our understanding that this is one of the cases examined by the Review and in this way has already fed the recommendations for change that we are committed to deliver. The Review gives us a roadmap to continuous improvement and our current progress against the recommendations can be found here: <https://community.wru.wales/cy/the-wru/reports/>'

'The Review was conducted independently to the WRU. However, we know that the Review Team made many direct approaches and had an open call for people to speak to them and we co-operated with and encouraged this. Specifically, we made it clear that we would be happy for anyone to speak freely with the Review Team, including those who had left employment and were the subject of confidentiality arrangements. People who spoke to the Review team did so on a confidential basis. We therefore cannot confirm and do not know whether this person decided to speak to the Review or not.

'We continue to encourage people to access our whistleblowing line if they are uncomfortable speaking to their line management about any issues. As we have already said, we understood that historical cases may come forward during and after the Review period. We continue to welcome dialogue with anyone involved or affected by any of the issues raised, so that we can apologise to them and continue to learn and improve.'

WRU Group CEO Abi Tierney.

Dyweddodd Prif Weithredwr Undeb Rygbi Cymru Abi Tierney:

'Yn gyntaf, mae'n hynod o bwysig i mi, fy mod ar ran pawb yn Undeb Rygbi Cymru, yn ymddiheuro'n ffurfiol i'r unigolyn o dan sylw. Mae'r ymddygiad â ddisgrifiwyd yn hollol anerbyniol ac ni fydd fyth yn cael ei oddef.

'Mae'n amlwg na lwyddodd ein diwylliant o fewn y gweithle ar y pryd i atal y digwyddiad. Ry'n ni'n gwybod y gweithiodd ein tîm Adnoddau Dynol (Pobl) yn galed dros gyfnod maith o amser, i gynnig cefnogaeth a gofal. Ry'n ni hefyd wedi dysgu y gellid fod wedi gwneud rhai pethau'n well yn ystod y broses. Ry'n ni eisoes wedi dweud ei bod yn edifar gennym bod cytundebau atal datgelu a threfniadau tebyg wedi eu defnyddio pan ddaeth y cyfnod cyflogaeth i ben.

'Yn ehangach, hoffwn bwysleisio unwaith eto ein bod yn ymddiheuro'n llawn i unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan ddigwyddiadau a heriau sydd wedi eu nodi yn yr Adolygiad Annibynnol diweddar.

'Er bod y person ar yr achlysur hwn, wedi penderfynu aros yn ddi-enw – mae'r disgrifiadau a'r amgylchiadau yn ein harwain i gredu bod yr achos penodol hwn, eisoes wedi cael ei archwilio gan y Panel Adolygu. Mae'r Panel hwnnw wedi cynnig argymhellion penodol i ni ac ry'n ni fel Undeb wedi ymrwymo i gyflwyno'r newidiadau hynny. Mae'r broses hon yn cynnig arweiniad clir i ni am sut y gallwn ni barhau i wella ein darpariaeth a gellir gweld statws ein ymrwymadau a'r hyn sydd eisoes wedi ei weithredu yma: <https://community.wru.wales/cy/the-wru/reports/>'

Er mai adolygiad annibynnol oedd hwn, ry'n ni'n gwybod i aelodau o'r Tîm Adolygu gysylltu'n uniongyrchol gydag unigolion gan wahodd pobl i rannu eu profiadau. Mae Undeb Rygbi Cymru wedi annog hyn hefyd ac wedi cydweithio'n llwyr gyda'r broses. Rydym yn benodol – wedi datgan ein bodlonrwydd i unrhyw unigolyn siarad yn agored gyda'r Tîm Adolygu – gan gynnwys cyn-aelodau staff oedd wedi arwyddo cytundebau atal datgelu. 'Roedd yr holl sgysiau hyn yn gyfrinachol ac felly ni allwn gadarnhau – gan nad ydym yn gwybod hynny – os y gwnaeth yr unigolyn o dan sylw yng nghyd-destun yr honiad penodol hwn – siarad gyda'r Adolygiad neu beidio.

'Ry'n ni'n parhau i annog unigolion i ddefnyddio ein llinell ffôn gyfrinachol 'Chwythu'r Chwiban' os nad ydynt yn gyfforddus yn trafod unrhyw fater gyda'u rheolwr llinell. 'Roedd yr Undeb yn deall y byddai'n bosib i achosion hanesyddol gael eu cyflwyno yn ystod ac wedi cyfnod yr Adolygiad. Mae

Undeb Rygbi Cymru yn parhau i groesawu trafodaeth gydag unrhyw unigolyn sydd wedi cael ei effeithio gan unrhyw fater sydd wedi cael ei godi – fel y gallwn ymddiheuro iddynt a pharhau i ddysgu a gwella'n darpariaeth yn y dyfodol.”

Diwedd

Ends

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru
Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi
Llywodraeth Cymru

09 Chwefror 2024

Blwyddyn Cymru ac India

Annwyl Mark a Vaughan,

Yn ein cyfarfod ar 24 Ionawr 2024, buom yn trafod cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer dathliad blwyddyn Cymru yn India yn ystod 2024.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymgyrch Cymru yn India a hoffai wybod mwy am y maes hwn o waith Llywodraeth Cymru ar Gysylltiadau Rhyngwladol - yn enwedig yng ngoleuni'r hinsawdd ariannol heriol y gosodwyd Cyllideb Ddrafft 2024-25 ynddo, a'r effeithiau posibl ar yr hyn y gellir ei gyflwyno. Byddwn yn ddiolchgar am eich ymateb i'r cwestiynau a ganlyn:

1. A allwch chi roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn Cymru yn India 2024, gan gynnwys amserlenni a gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio?
2. Pa wersi a ddysgwyd o flynyddoedd blaenorol 'Cymru Yn' ar gyfer Cymru yn India 2024?
3. Yn ystod y gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, dywedodd Gweinidog yr Economi a'r Gweinidog Materion Gwledig wrth Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y bydd rhaglen fasnach Llywodraeth Cymru yn cael ei lleihau oherwydd pwysau cyllidebol. Rydym yn deall y byddai hyn yn golygu cymryd rhan mewn llai o deithiau masnach dramor, ac efallai cynyddu gweithgarwch rhithwir. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cysoni hyn â datganiad y Prif Weinidog mai ffocws Cymru yn India fydd 'datblygu cysylltiadau masnach a buddsoddi, cymell tawel a chysylltiadau iechyd y GIG'?

4. A allwch chi gadarnhau dyraniad y gyllideb ddrafft ar gyfer Cymru yn India 2024 ac a yw hyn wedi'i leihau?
5. Pa effaith, os o gwbl, y mae'r dull diwygiedig yr amlinellodd y Gweinidogion i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi'i chael ar gynllunio ar gyfer Cymru yn India?
6. Yng ngoleuni gostyngiadau i gyllidebau perthnasol, sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cydbwysu gweithgareddau Cymru yn India â gweithgareddau rhyngwladol eraill, gan gynnwys â'i pherthnasoedd â blaenoriaeth, fel y'u rhestrir yn y Strategaeth Ryngwladol?
7. A allwch chi gadarnhau a oes cynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer ymweliadau tramor gan Weinidogion ag India?

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 08 Mawrth 2024.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
huw.Irranca-Davies@senedd.wales

12 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ynglŷn â'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (y Bil) dyddiedig 31 Ionawr.

Mae eich llythyr yn cyfeirio at drafodaethau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch cymal 114 y Bil (marchnata uniongyrchol at ddibenion ymgysylltu democrataidd) ac yn gofyn fy marn a manylion pellach ar nifer o faterion.

Mewn perthynas â'ch cwestiwn ynghylch asesiad Llywodraeth Cymru o gysylltiad cymal 114 â Rheol Sefydlog 29. Mae cymalau 108 i 119 o'r Bil yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb y CE) 2003 (Rheoliadau PEC) ac mewn perthynas â hwy. Mae'r Rheoliadau PEC hyn yn ymwneud â diogelu preifatrwydd gwrthrych y data mewn perthynas â chyfathrebu electronig. Felly, i'r graddau y mae Rheoliadau PEC yn gymwys i brosesu data personol, mae cymal 114 yn ymwneud â mater a gadwyd yn ôl o ddiogelu data personol (paragraff 170 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Felly, nid yw Rheol Sefydlog 29 yn gysylltiedig.

Ni ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru gan Weinidogion Llywodraeth y DU wrth baratoi'r cymal hwn, ac nid yw ei sylwedd na'i fwriad polisi wedi'i godi gyda ni. Rydym yn nodi'r sylwadau a wnaethpwyd yn nhrefnadaeth Senedd y DU ar y ddarpariaeth hon.

Mae fy swyddogion wedi siarad â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU sydd wedi cynghori nad oes cynlluniau ar hyn o bryd i baratoi rheoliadau gan ddefnyddio'r pŵer newydd hwn ar gyfer etholiadau datganoledig. Pe bai'r sefyllfa hon yn newid, byddaf yn hysbysu'r Pwyllgor.

Hyderaf fod y llythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Pwyllgor.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 78
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, ac at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD

Y Gwir Anrh Michelle Donelan AS

Ysgrifennydd Gwladol dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg

Llywodraeth y DU

19 Chwefror 2024

Cofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol

Annwyl Michelle,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn ymwneud â'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) ("y Bil"). Yn ystod cyfnod adrodd trafodion deddfwriaethol yn Nhŷ'r Cyffredin, fe wnaethoch gyflwyno diwygiadau i'r Bil yn ymwneud â sefydlu Cofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol.

Fel y gwyddoch, mae cannoedd o berchnogion asedau tanddaearol ledled y wlad, yn amrywio o lywodraeth leol i gwmnïau cyfleustodau. Bydd gan yr holl berchnogion hyn eu prosesau ar gyfer cynnal data o'r fath. Er nad oes gennym safbwynt penodol ar sefydlu cofrestr o'r fath, mae gennym bryderon bod y Bil diwygiedig yn trosglwyddo pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy bwerau rheoleiddio, i wneud penderfyniadau ar Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol fel y mae'n ymwneud â Chymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi "pryderon polisi cyfansoddiadol" ynghylch pwerau rheoleiddio o dan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 yn cael eu trosglwyddo o Weinidogion Cymru yn ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol (fel y nodir ym mharagraff 22 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3). Nid ydym yn sicr, fodd bynnag, am ei farn na'i ran yn y mater polisi hwn yn fwy cyffredinol.

Hoffem wybod pa drafodaethau rydych chi neu'ch swyddogion wedi'u cael gyda Llywodraeth Cymru ynghylch sefydlu Cofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol. Hoffem gael gwybod yn arbennig, pa ystyriaethau sy'n cael eu rhoi i gymwyseddau datganoledig a sut y cânt eu rheoli. Byddem hefyd yn




croesawu amlinelliad gennych am beth yw rhan Llywodraeth Cymru yn y gwaith o ddatblygu'r polisi ar gyfer cofrestr o'r fath.

Fel y mae, mae'r diffyg manylion a thryloywder ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ynghylch y diwygiadau i'r Bil (a nodwyd fel rhai sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd) wedi rhwystro ein gallu i asesu goblygiadau polisi'r newidiadau hyn. Byddem, felly, yn croesawu eglurder am eich trafodaethau â Llywodraeth Cymru i gynorthwyo ein hystyriaethau.

Wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy Dŷ'r Arglwyddi, byddem yn ddiolchgar o gael ymateb brys i'r mater hwn. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgor Newid Hinsawdd ac Amgylchedd y Senedd a Phwyllgor Deddfwriaethol, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd er gwybodaeth.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Dafydd Rhys

Prif Weithredwr

Cyngor Celfyddydau Cymru

19 Chwefror 2024

Cymorth Pontio Adolygiad Buddsoddi

Annwyl Dafydd,

Ysgrifennaf atoch yn dilyn ein hystyriaeth, o [ohebiaeth](#) ar 8 Chwefror 2024 gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ynghylch dyfodol National Theatre Wales. Yn y llythyr hwnnw, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"... mae Cymorth Pontio ar gael i sefydliadau presennol ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru, gan gynnwys National Theatre Wales, a fu'n aflwyddiannus yn eu cais yn yr Adolygiad Buddsoddi hwn. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cymorth ariannol ac yn cynnig cyngor ac arbenigedd ychwanegol a phenodol i helpu'r sefydliadau i addasu i beidio â derbyn eu cyllid blynyddol craidd mwyach."

Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau:

- Faint o arian y mae Cyngor y Celfyddydau wedi'i ddyrannu ar gyfer cyllid pontio;
- Faint o geisiadau sydd wedi'u gwneud am gyllid pontio;
- Beth mae "cyngor ac arbenigedd ychwanegol a phenodol" yn ei gynnwys;
- Faint o geisiadau sydd wedi'u gwneud am gyngor o'r fath;
- Pryd y bydd penderfyniadau ar geisiadau am gyllid pontio yn cael eu gwneud;
- Pryd y bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cyllid pontio?



Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Delyth Jewell'.

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

senedd.cymru/SeneddDiwylliant

0300 200 6565

Senedd Cymru

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddCulture@senedd.wales

senedd.wales/SeneddCulture

0300 200 6565

Lorne Campbell

National Theatre Wales

19 Chwefror 2024

Canlyniad Adolygiad Buddsoddi

Annwyl Lynne

Ysgrifennaf atoch yn dilyn ein hystyriaeth ar 8 Chwefror 2024, o ohebiaeth gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ynghylch dyfodol National Theatre Wales.

Yn anffodus, ymddengys nad yw opsiynau ar gyfer cymorth yn y dyfodol ar gael gan Lywodraeth Cymru, felly byddem yn eich annog i wneud defnydd o'r cymorth pontio sy'n cael ei ddarparu drwy Gyngor y Celfyddydau.

Rydym yn gwerthfawrogi bod hwn yn gyfnod cythryblus ac mai'r flaenoriaeth dros yr wythnosau nesaf fydd darparu gofal a chymorth i'ch staff. Rydym yn dymuno pob llwyddiant i chi yn eich ymdrechion yn y dyfodol.

Yn gywir,

Delyth Jewell

Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



**Senedd Cymru
Welsh Parliament**

Tudalen y pecyn 84

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon